



MYFYRWYR RHYNGWLADOL **POLISI FFI OEDD DYSGU 2019/20**

Os ydych yn cofrestru fel myfyriwr, dylech ddarllen a deall y telerau cofrestru a amlinellir isod cyn llofnodi'r ffurflen gofrestru. Mae'n arbennig o bwysig eich bod yn deall eich atebolrwydd a'n polisi ynglŷn â thaliadau ac ad-daliadau.

Os ydych yn Fyfyriwr Rhyngwladol mae faint o ffioedd dysgu y byddwch yn atebol am eu talu yn dibynnu ar eich **statws ffi a lefel** y cwrs yr ydych yn dymuno ei astudio (Addysg Bellach neu Uwch – gweler Atodiad 1).

Mae'n hanfodol fod pob myfyriwr Rhyngwladol posibl yn cysylltu â Gwasanaeth Derbyn y Coleg yn y lle cyntaf er mwyn ceisio cymorth i adnabod ei statws ffi.

Sut mae talu?

Rhaid i'ch ffioedd dysgu gael eu talu'n **llawn** naill ai o flaen llaw neu wrth gofrestru, trwy unrhyw rai o'r ffyrdd canlynol:

Talu o flaen llaw

- Trosglwyddiad Banc i:

Banc Barclays, Canolfan Fusnes, 16 Stryd Vaughan, Llanelli, SA15 3UE
Côd Didoli: 20-51-40
Enw'r Cyfrif: Coleg Sir Gâr
Rhif y Cyfrif: 20189243
IBAN GB31 BARC 2051 4020 1892 43
SWIFTBIC BARCGB22

Talu wrth gofrestru

- Gallwn dderbyn taliad ar ffurf siec Cyfrif Banc y DU neu Gerdyn Debyd neu Gredyd* – mae'n flin gennym ond ni allwn dderbyn taliadau arian parod dros £200.00

Gwnewch yn siŵr fod eich enw a'ch cyfeiriad yn ymddangos yn glir ar y trosglwyddiad neu'r siec


Noder **nad** yw ffioedd dysgu yn cynnwys y canlynol:

- Ffioedd cofrestru Ail-wneud Arholiadau
- Llyfrau cwrs
- Treuliau ychwanegol yn ymwneud â'r cwrs h.y. teithiau, iwniforms neu ddeunyddiau cwrs.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn ag unrhyw rai o'r gweithdrefnau uchod, cysylltwch â'r Uned Dderbyn trwy ffonio 01554 748174 neu trwy anfon e-bost i admissions@colegsirgar.ac.uk.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newid

Unwaith y maent wedi cofrestru gyda'r Coleg rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r Coleg am unrhyw newidiadau yn eu manylion personol ar unwaith: e.e., cyfeiriad, rhif ffôn cartref, rhif ffôn symudol ac ati, trwy ffonio'r Uned Dderbyn ar 01554 748174 neu anfon e-bost i admissions@colegsirgar.ac.uk.

		
TALIADAU FFI OEDD DYSGU A CHOFRESTRU RHYNGWLADOL		
<i>Addysg Uwch Llawn Amser Rhyngwladol - Israddedig</i>		
Cwrs	Ffi	Ffi Gofrestru
HND, Gradd Sylfaen a BSc, BA Blwyddyn 1-3	£ 10,000	Yn cynnwys Ffi Gofrestru
<i>Addysg Bellach Rhyngwladol</i>		
Cwrs	Ffi	Ffi Gofrestru
Pob cwrs	£ 6,000	Yn cynnwys Ffi Gofrestru